# 16. MINIBEAST SAFARI



Contact: notice and actively engage in nature

Linked to emotion and compassion.

## Objective:

To be able to identify different minibeasts and some of their key characteristics (spiders, woodlouse, slug, snail, ant, beetle).

You could start the safari by making a 'pooter' or a 'bottle bug catcher'. You will need to prepare for these activities in advance.

## Resources

| Essential: | Optional: |
| --- | --- |
| Your best wildlife detective skills | Bug pots<br>Paint brush<br>Magnifiers<br>Identification charts or apps<br>White trays |

## Hints & Tips

Remind children to have kind, gentle hands. We are giants to the minibeasts and don't want to squish them; use a paintbrush and gently persuade the bugs into pots. Remind them to collect one creature at a time, photograph it, then release it where they found it.

If you turn over a stone or log, remember to gently put it back afterwards.

Advise against putting slimy things (slugs and snails) in pots – it makes them sticky and other minibeasts will get stuck. If necessary, have a designated tray/pot for slimy things.

## Instructions:

1. Introduce some minibeasts. 'Minibeasts' are invertebrates, animals with no backbone. They pollinate plants, recycle dead things, make soil, clean up mess and feed lots of other animals, like birds, hedgehogs and frogs. About 70% of all species on the planet are invertebrates! Not all invertebrates are insects. Insects are animals with six legs. Some invertebrates have no legs, like worms and slugs.
**Where will you find them?** Hiding under things, on plants, in soil, in water, flying about, in trees and in bushes.

2. Ask the children to create a 'habitat' in their tray by collecting natural materials. The children can keep their collected minibeasts here during the safari but be warned, some may escape!

3. Go looking for minibeasts. If possible, encourage people to identify/photograph minibeasts without catching them. If they are too difficult to photograph, use the bug persuader (paint brush) to coax/sweep bugs gently into pots first.

4. Use your phone app and identification charts to work out what you've found.

5. Spend some time looking at the trays at what has been found. What have you noticed?

6. Make sure to put all the minibeasts back, as close to where you found them as possible.



## Plenary/Wrap Up

Get together as a group. What did you find the most/least of? Why might that be?

What was the children's favourite thing they found?

What have the children enjoyed?

Remind everyone to wash their hands.

Follow-on activities: Create a creature (no 26), Animal Simon says (no 23).

## RSPB Wild Challenge

Shake a Tree
Make a Beetle Bucket
Make a Rock Pile
Make a Log Pile
Make a Potato Trap

yn rhoi cartref i fyd natur | giving nature a home
rspb Cymru
Cardiff Caerdydd
buglife Cymru
Cronfa Gymunedol Community Fund
#CaerDydd Gwyllt
#Wild Cardiff

# 16. SAFFARI BWYSTFILOD BACH

Cyswll: sylwi ac ymgysylltu â byd natur.

Cysylltiedig ag emosiwn a thosturi.

## Amcan:

Gallu adnabod gwahanol fwystfilod bach a rhai o'u prif nodweddion. Gellir gwneud hyn ym mhob tymor (corryn, gwrachen ludw, gwlithen, malwen, morgrugyn, chwilen).

Gallech ddechrau'r saffari drwy greu sugnwr neu greu potel dal trychfilod. Bydd angen i chi baratoi ar gyfer y gweithgareddau hyn ymlaen llaw.

## Adnoddau

| Hanfodol: | Dewisol: |
|---|---|
| Eich sgiliau ditectif bywyd gwyllt gorau | Potiau trychfilod<br>Brwsh paent<br>Chwyddwydrau<br>Siartiau neu apiau adnabod<br>Blychau gwyn |

## Awgrymiadau

Atgoffwch y plant i fod yn ofalus a charedig â'u dwylo. Rydyn ni'n gewri i'r bwystfilod bach hyn, a dydyn ni ddim eisiau eu gwasgu; defnyddiwch frwsh paent a pherswadiwch y pryfed i fynd i mewn i'r potiau'n ofalus. Atgoffwch nhw i gasglu un creadur ar y tro, tynnu ei lun, yna'i ryddhau yn y man lle gwnaethon nhw ddod o hyd iddo.

Os ydych yn troi carreg neu ddarn o bren drosodd, cofiwch ei roi yn ôl yn ofalus wedyn.

Mae'n well peidio â rhoi pethau llysnafeddog (gwlithod a malwod) mewn potiau – mae'n eu gwneud yn ludiog a bydd bwystfilod bach eraill yn mynd yn sownd. Os oes angen, defnyddiwch flwch/pot penodol ar gyfer pethau llysnafeddog.

## Grŵp llawn / crynodeb

Dewch at eich gilydd fel grŵp. Beth wnaethoch chi ddarganfod y mwyaf/lleiaf ohono? Beth yw'r rheswm posibl am hynny?

O'r holl bethau a welodd y plant, beth roedden nhw'n ei hoffi fwyaf?
Beth mae'r plant wedi'i fwynhau?

Atgoffwch bawb i olchi ei dwylo.

Gweithgareddau dilynol: Creu creadur (rhif 26), Mae Seimon yn dweud anifeiliaid (rhif 23).

## Cyfarwyddiadau:

1. Cyflwynwch ychydig o fwystfilod bach. Infertebratau ydy 'bwystfilod bach' – anifeiliaid heb asgwrn cefn. Maen nhw'n peillio planhigion, ailgylchu pethau sydd wedi marw, gwneud pridd, clirio llanast a bwydo llawer o anifeiliaid eraill, fel adar, draenogod a brogaod. Mae tua 70% o'r holl rywogaethau sydd ar y blaned yn infertebratau! Nid yw pob creadur di-asgwrn-cefn yn bryf. Mae pryfed yn anifeiliaid â chwe choes. Mae rhai infertebratau heb goesau, er enghraifft mwydod a gwlithod.
**Ble fyddwch chi'n eu gweld?** Yn cuddio o dan bethau, ar blanhigion, mewn pridd, mewn dŵr, yn hedfan o gwmpas, mewn coed ac mewn llwyni.

2. Gofynnwch i'r plant greu 'cynefin' yn eu blwch drwy gasglu deunyddiau naturiol. Gall y plant gadw'r bwystfilod bach y byddant wedi'u casglu yn ystod y saffari, ond cofiwch y gall rhai ddianc!

3. Ewch i chwilio am fwystfilod bach. Os yw'n bosibl, anogwch bobl i adnabod/tynnu lluniau â chamera/ffôn o fwystfilod bach heb eu dal. Os ydynt yn rhy anodd i dynnu eu llun, defnyddiwch y perswadiwr trychfilod (brwsh paent) i gymell/sgubo trychfilod yn ofalus i mewn i'r potiau i ddechrau.

4. Defnyddiwch eich ap ffôn a siartiau adnabod i ganfod beth rydych wedi'i weld.

5 Treuliwch ychydig o amser yn edrych yn y blychau ar y pethau rydych wedi'u gweld. Beth rydych wedi sylwi arno?

6. Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi pob un o'r peillwyr yn ôl, mor agos ag sy'n bosibl at y man lle gwnaethoch chi eu gweld.

**Sialens Wyllt RSPB**

Ysgwyd Coeden
Creu Pentwr Cerrig
Creu Tomen Foncyffion
Creu Magl Tatws

rspb yn rhoi cartref i fyd natur | giving nature a home Cymru
Cardiff Caerdydd
buglife Cymru
Cronfa Gymunedol Community Fund
#CaerdyddGwyllt #WildCardiff